

**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**  
**LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL**

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned nos Fawrth y 9fed o Ionawr 2018 am 8.00 yr hwyr yng Nghanolfan Gwytherin.

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau:** Gwyn Williams, Gerallt Evans, Elwen (Clerc).

Yn bresennol:

Diane Roberts, Emlyn Williams, Gwynfor Davies, Ann Vaughan, Elen Edwards, Clwyd Roberts, Einir Williams (Cadeirydd am heno),  
Cynghorydd Sir Garffild Lloyd Lewis.

Cytunodd Garffild i gofnodi'r cyfarfod yn absenoldeb y Clerc.

**2. DATGAN CYSYLLTIAD – OS OES UNRHYW EITEM AR YR AGENDA YN GYSYLLTIEDIG AG AELOD O'R CYNGOR DYLAID DDATGUDDIO DIDDORDEB**

Neb

**3. Cofnodion Cyfarfod 19eg o Ragfyr 2017**

Nodwyd cofnodion 19eg o Ragfyr. Feu cynnigwyd yn gofnod cywir gan Elen Edwards, gyda Gwynfor Davies yn eilio.

**4. Materion yn codi o'r cofnodion (er gwybodaeth)**

**4.1** 74.4 Cafwyd cadarnhad gan y Cyng Garffild Lewis ei fod wedi cysylltu gydag Iwan Ellis yn yr Adran Briffyrdd, a bod Iwan wedi nodi ei fod eisoes wedi bod yn mesur cyflymdra ger yr ysgol unwaith cyn y Nadolig a'i fod yn bwriadu ymweld eto cyn diwedd Ionawr. Roedd peth dryswch gan fod y Clerc hefyd wedi derbyn llythyr gan Vic Turner, un o brif swyddogion yr Adran, yn dweud na allai'r Sir ddarparu prosiect arafu traffig. Serch hynny, fe fydd Iwan yn dod draw i fesur cyflymdra, er mwyn paratoi adroddiad i'r Cyngor Sir a'r Cyngor Cymuned.

Cafwyd trafodaeth am yr holl fater, ac am fesurau posib eraill i arafu ceir drwy'r pentref. Gofynnodd Clwyd Roberts a fyddai modd cael gwybod gan Iwan Ellis pa bryd, a faint o'r gloch y mae'n bwriadu ymweld a'r pentref, a gofynwyd i Garffild gael cadarnhad o drefniadau Iwan Ellis.

**4.2** 74.15.9 Cafwyd trafodaeth am broblem penodi Clerc a nodwyd y pwyntiau canlynol:

**4.2.1** Y syniad o rannu rhai o ddyletswyddau a swyddogaethau'r Clerc rhwng yr aelodau fel mesur drosh dro. (Penderfynwyd rhoi yr elfen yma ar agenda cyfarfod y mis nesaf, er mwyn creu rota a rhannu dyletswyddau bryd hynny)

**4.2.2** Rhoi ystyriaeth i gyflogi un Clerc i wasanaethu 3 – 4 o Gynghorau Cymuned yr ardal. Hyn yn digwydd eisoes mewn rhai ardaloedd a chymunedau. Nododd y Cyng. Garffild fod hon yn broblem gynyddol mewn sawl ardal a'i fod wedi codi'r mater yng nghyfarfod Cabinet y Cyngor Sir heddiw er mwyn tynnu sylw at y broblem. Mae'r Cyngor Sir wedi trefnu Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned ar y 31ain o Ionawr, a chytunwyd y bydd y Fforwm yn lle addas a phriodol i gael trafodaeth bellach ar y mater. Dywedodd Elen Edwards ei bod yn bwriadu mynychu a rhoddwyd gwahoddiad agored i unrhyw aelod arall ymuno a hi. Bydd y Cyng Garffild yn mynd hefyd.

**4.2.3** Trafodwyd y syniad o geisio gael Clerc 'llawrydd' drwy asiantaeth gyflogaeth. Fel arfer mae asiantaethau yn codi llawer mwy na £8 yr awr, a roedd ansicrwydd hefyd ynglyn a hawl Cynghorau Cymuned i gyflogi staff asiantaethau. Gofynwyd i Einir Williams gysylltu ag Un Llais Cymru i ofyn am gyngor – am yr hawl i ddefnyddio asiantaeth, ac am yr hawl i dalu mwy na'r gyfradd statudol. Nododd Ann Vaughan bod glanhawyr a gweithwyr asiantaethau eraill yn cael o leiaf £10 yr awr, felly yn anodd iawn cystadlu.

**4.2.4** Y posibilrwydd o hysbysebu am Glerc ar wefan y Cyngor Sir. Cytunodd Elen Edwards i gysylltu a'r swyddogion priodol i ofyn am ganiatad.

**4.2.5** Trafodwyd dwy syniad arall o ran hysbysebu – defnyddio gwefan 'Clercod Cynghorau Tref a Chymuned, (Diane) a defnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol (Clwyd). Cytunodd Diane i ymchwilio i wefan y Clercod, a nododd Einir ei bod eisoes wedi tynnu sylw at y swydd ar y Cyfryngau Cymdeithasol a chael dim ymateb hyd yma. Bydd yn parhau i wneud hynny.

**4.2.6** Nododd Gwynfor Davies mai rhan o'r broblem yw ceisio mesur faint o waith sydd i'w wneud, a sawl awr o waith? Nododd Elen Edwards y gellid creu system fwy hyblyg, gyda rhai o'r dyletswyddau yn cael eu rhannu rhwng aelodau, ond y gwaith o gofnodi cyfarfodydd a delio gyda gohebiaeth yn cael ei wneud gan berson allanol. Bydd y mater yma yn cael ei drafod ymhellach yng nghyfarfod y mis nesaf.

4.2.7 I gloi ar fater y Clerc, nodwyd y bydd angen i Elwen roi neges 'Out of Office' ar ei chyfeiriad Clerc Cyngor Cymuned, a chyfeirio E-byst i'r holl Gyngor hyd nes y bydd Clerc newydd wedi ei benodi/phenodi. Gofynwyd i Einir Williams gysylltu ag Elwen i drefnu hyn.

## **5. Materion Ffyrdd ac Amgylchedd:**

- 5.1 Nodwyd fod Pont Hendre Ddu wedi agor o'r diwedd ar ol misoedd lawer o waith. Gofynnodd Clwyd Roberts os oedd rhywun wedi gweld lori 'artic' yn croesi'r bont a'i fod yn poeni bod tro yng nghanol y bont, ond dywedodd Ann Vaughan ei bod yn ymwybodol bod loriau wedi defnyddio'r bont yn ddidrafferth, a'i bod wedi mynd a Land Rover a threlar dros y bont yn ddidrafferth.
- 5.2 Nododd Ann Vaughan ei bod wedi cysylltu gyda swyddfa ranbarthol y Cyngor Sir yn Llanrwst i gwyno am gyflwr y ffosydd ger Bryngwylan, am yr angen i ail-wynebu'r ffordd ar Allt Cefn Coch, bod ffos yn llifo i'r ffordd ar Allt Ty'n Pistyll (Cyngor Sir wedi gofyn i'r ffarmwr ei chlirio) ac eglurodd Ann fod sawl adran wahanol o'r Cyngor yn delio gyda gwahanol faterion ac ardaloedd.
- 5.3 Eglurodd y Cyng Garffild Lewis fod system dda yn bodoli i gofnodi unrhyw faterion fel y rhai uchod (ffyrdd ac amgylchedd) ar wefan Cyngor Conwy a'i bod yn ofynnol i Adran Ffyrdd ac Amgylchedd (ERF) y Cyngor i ymateb o fewn 10 diwrnod unwaith bod problem wedi ei chofnodi.

## **6 Cyllideb a Threth (precept)**

- 6.1 Eglurodd Elen Edwards fod angen diweddarau'r Gyllideb ar gyfer tri mis ola'r flwyddyn gan gynnwys costau clercc ac unrhyw gostau ychwanegol. Cafodd y Gyllideb ei diweddarau gan gynnwys cost addaliad costau i'r clercc i wneud yn iawn am ddiffyg yn y cyflog ers 2014. Cadarnhaodd Einir Williams fod y swm yn £534.17 a phenderfynwyd talu'r swm drwy'r system gyflog arferol. Cynigiwyd gan Emlyn Williams gydag Elen Edwards yn eilio.
- 6.2 Cafwyd trafodaeth am y dreth (precept). Nodwyd fod yr Eisteddfod yn dod i'r ardal yn 2019 ac y gallai'r Cyngor Cymuned wneud cyfraniad drwy godi'r 'precept'. Yn hytrach na hynny, penderfynwyd gofyn i'r Pwyllgor Apel wneud cais am gyfraniad ariannol i'r Cyngor Cymuned yn hytrach na'i roi ar y 'precept'.
- 6.3 Cynigiodd Diane Roberts godi'r dreth o 2% ac eglurodd Einir Williams y byddai hynny yn ychwanegu £256 at y coffrau yn y flwyddyn ariannol nesaf. Awgrymodd Elen Edwards y dylid ystyried mwy o gynnydd na hynny er mwyn cael arian wrth gefn ar gyfer unrhyw wariant annisgwyl yn y dyfodol. Cafodd cynnig Diane Roberts (2%) ei eilio gan Ann Vaughan.
- 6.4 Dywedodd y Cyng Garffild – er mwyn rhoi cyd destun - fod y Cyngor Sir yn ystyried codi'r Dreth Cyngor o hyd at 5% ond na fyddai cadarnhad o hynny am rai wythnosau eto.
- 6.5 Cynigiwyd gwelliant gan Clwyd Roberts i newid y 2% i ffigwr penodol o £300 o gynnydd ac fe eiliwyd hynny gan Gwynfor Davies. Derbyniwyd y gwelliant gan yr aelodau.
- 6.6 Cynigodd Elen Edwards wneud y gwaith papur ar gyfer y Precept ai gyflwyno i'r Cyngor Sir erbyn y dyddiad penodedig.

## **7 Gohebiaeth:**

- 7.1 Nododd Einir Williams ohebiaeth gan Un Llais Cymru yn cynnwys adroddiad o waith y sefydliad. Llythyr arall gan Un Llais Cymru yn tynnu sylw at gyflwyniad gan Heddlu Gogledd Cymru yn Llansannan ar y 24ain Ionawr (Emlyn Williams am fynd).
- 7.2 Gohebiaeth gan Bwyllgor lechyd ardal Conwy/Dinbych yn cynnwys rhaglen hyfforddiant – nododd Diane Roberts fod cyflwyniad wedi bod gan y Cyngor lechyd a'i bod wedi gofyn am sleidiau o'r cyflwyniad er mwyn rhannu gydag aelodau.
- 7.3 Llythyr gan yr Urdd yn gofyn am gyfraniad ariannol.

## **8 Talu biliau:**

- 8.1 Cytunwyd i dalu'r biliau canlynol –
  - Y Gadlas £4.00
  - Clerc £875.78
  - Etholiad £140.60, £151.47, £139.01
  - Y Ganolfan £57.00

## **9 Materion lleol:**

- 9.1 Ann Vaughan – “papurau cyfreithiol y toiledau wedi cyrraedd ac yn cadarnhau mai Cronfa Bro Cernyw yw perchennog yr adeilad erbyn hyn. Biliau cyfreithiol angen eu talu (Steve Teale i dalu costau).”
- 9.2 Diane Roberts – angen mwy o halen yn y bocs halen ger Glan Collen (Diane i gysylltu a Chyngor Conwy), nodi hefyd bod un o drigolion y pentref wedi tynnu sylw at yr angen am gamera CCTV ger y toiledau er mwyn atal fandaliaeth a chamymddwyn (roedd Ann wedi gorfod glanhau llanast yn y toiledau yn ddiweddar).

- 9.3** Diane wedi cael cais gan swyddogion Lles Cymunedol i wneud cyflwyniad i'r Cyngor (Diane i gysylltu i drefnu dyddiad). Tynnu sylw at grantiau posib i dyfu blodau gwyllt yn y pentref (Diane am ymchwilio ymhellach a gwneud cais os yn briodol).
- 9.4** Emlyn Williams – ffyrdd yn yr ardal angen eu glanhau ar ol y tywydd garw yn ddiweddar.
- 9.5** Clwyd Roberts – angen trwsio a thacluso'r wal ger yr Ardd Goffa (Clwyd am ddefnyddio gwefan ERF Conwy i dynnu sylw at hyn).
- 9.6** Sefyllfa torri gwair y cae pel-droed. Eglurodd y Cyng Garffild Lewis y cefndir a bod sefyllfa eitha cymhleth rhwng yr Ysgol, y Cyngor Sir, Pwyllgor y Ganolfan a'r Clwb Pel-droed. Mae cytundeb 'Service Level Agreement' rhwng yr Ysgol a'r Cyngor i dorri gwair yn ystod cyfnodau tymhorau ysgol a byddai torri y tu allan i'r cyfnodau yma yn costio tua £140 y toriad. Nid cyfrifoldeb yr ysgol yw hynny. Awgrymodd Garffild y dylai cynrychiolwyr y Clwb, y Ganolfan a Phennaeth yr Ysgol gyfarfod i geisio ffordd ymlaen.
- 9.7** Gwynfor Davies – dim
- 9.8** Elen Edwards – dim
- 9.9** Cyng Garffild Lewis – wedi cael ymddiheuriad gan BT ynglyn a'r oedi gyda'r cynllun i gwblhau cyasylltedd Band Eang i bentref Gwytherin. Roedd hyn oherwydd y tywydd garw yn ddiweddar. Bydd y cwmni yn ceisio cwblhau'r gwaith cyn gynted a phosib. Roedd un o drigolion Gwytherin wedi cysylltu a'r Cyngorydd yn gofyn beth oedd y sefyllfa ynglyn a mast ffonau symudol oedd i fod i'w osod ar safle ger y pentref rai blynyddoedd yn ol. Nododd Emlyn nad oedd y gwaith wedi mynd yn ei flaen, a dywedodd Elen fod ganddi rhywfaint o fanylion i'w pasio ymlaen i Garffild.
- 9.10** Einir Williams – Nododd Einir fod cais cynllunio wedi cyrraedd yn hwyr ac felly ddim ar yr agenda. Penderfynwyd ei roi ar agenda y pwyllgor nesaf a gofynwyd i Diane Roberts gysylltu a'r Cyngor Sir i ofyn am estyniad i roi sylwadau ar y cais y tu hwnt i'r dyddiad penodol o 30ain o Ionawr.
- 9.11** Angen hefyd i'r Cyngor gymeradwyo yn ffurfiol y penderfyniad i roi grantiau i gymdeithasau a sefydliadau lleol. Penderfynwyd gwneud hyn yn y cyfarfod nesaf.

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:

**6ed o Chwefror yn Llangernyw.**

*Garffild Lloyd Lewis*  
Cofnodwyd 9fed Ionawr 2018